



2.00pm, dydd Mawrth 4 Mai 2021
Cyfarfod Rhithwir

COFNODION

Presennol	
Enw	Sefydliad
Barry Liles (Cadeirydd)	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Y Cyngorydd Emlyn Dole	Cyngor Sir Caerfyrddin
Huwel Manley	Cyfoeth Naturiol Cymru
Yr Uwch-arolygydd Gary Phillips	Heddlu Dyfed–Powys
Carys Morgans	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Ruth Mullen	Cyngor Sir Caerfyrddin
Kevin Jones	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Y Cyngorydd Jan Curtice	Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Martyn Palfreman	Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru
Anna Bird	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Huw Thomas	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Marie Mitchell	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
Christine Harley	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Wyn Morris	Adran Gwaith a Phensiynau
Andrew Charles	Llywodraeth Cymru

Hefyd yn bresennol	
Enw	Sefydliad
Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Caerfyrddin
Kate Harrop	Cyngor Sir Caerfyrddin
Wendy Phillips	Cyngor Sir Caerfyrddin
Amy Richmond-Jones	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Alun Harries	Cyngor Tref Caerfyrddin
Isabel Macho	Cyngor Sir Caerfyrddin
Russel De'Ath	Cyfoeth Naturiol Cymru (Eitem 3)
Heléna Herklots	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Eitem 4)
David McKinney	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Eitem 4)
Gareth Rees	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Eitem 4)

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd Barry Liles, y Cadeirydd, bawb i'r cyfarfod rhithwir, a chafodd yr aelodau newydd, Wyn Morris ac Andrew Charles, a'r gwesteion eu cyflwyno.

Ymddiheuriadau	
Enw	Sefydliad
Maria Battle	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Ros Jervis	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Andrew Cornish	Coleg Sir Gâr
Helen Roderick	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

3. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) – Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau / Partneriaeth Natur / Adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) – Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau / Partneriaeth Natur

Rhododd Isabel Macho, Swyddog Bioamrywiaeth CSC, gyflwyniad ar Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd – Dyletswydd Bioamrywiaeth. Yn ogystal â'r argyfwng hinsawdd, mae gennym argyfwng natur, ac ni ellir ystyried y naill heb y llall. Mae Deddf yr Amgylchedd yn ategu darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn berthnasol i bob corff cyhoeddus a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd Adran 6, dylai cyrff cyhoeddus ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn gynnar ac wrth gynllunio busnes, gan gynnwys mewn polisiau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae manteision lu'n perthyn i Ddeddf yr Amgylchedd sy'n galluogi cyrff cyhoeddus i gyrraedd eu nodau llesiant. Mae hefyd yn cyflwyno Datganiadau Ardal y mae'n rhaid eu hystyried wrth baratoi Asesiadau Llesiant, sydd yn eu tro'n llywio cynlluniau llesiant y BGC.

Dangoswyd enghraifft o rwydwaith ecolegol gydag awgrymiadau ar sut y gellid ei wella. Gellid rheoli cynefinoedd glaswelltir yn well drwy dorri ar lefel uwch ac yn llai aml gan fod glaswelltir yn dda am storio carbon. Gellir helpu rhywogaethau y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnynt drwy osod blychau adar ac ystumod. Gall cynhyrchion glanhau hefyd fod yn niweidiol i gyrsiau dŵr a dylid ystyried caffael cynhyrchion sy'n sensitif i'r amgylchedd.

Mae Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin (CNP) wedi bodoli ers 20 mlynedd ac mae'n rhan o rwydwaith Partneriaeth Natur Leol Cymru. Mae ganddi nifer o bartneriaid, gan gynnwys CSC a Cyfoeth Naturiol Cymru fel cyrff cyhoeddus, a sefydliadau eraill fel yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Glöynnod Byw, Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, a'r Ymddiriedolaeth Natur. Mae gan Bartneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin Gynllun Adfer Natur ar gyfer y sir, sy'n adlewyrchu'r amcanion cenedlaethol. Mae cydweithio agos hefyd â thîm Datganiad Ardal y De-orllewin o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin yn cael ychydig o gyllid bob blwyddyn a fydd yn cael ei ddefnyddio i lunio Adroddiad Sefyllfa Byd Natur i Sir Gaerfyrddin, gan weithio ochr yn ochr â phartneriaid, a phrosiectau amrywiol i gefnogi camau gweithredu.

Mae proffil bywyd gwyllt yn eich ward wedi cael ei greu ar gyfer pob ward yn y sir, a bydd yn cael ei ddsbarthu i gynyddu ymwybyddiaeth o fywyd gwyllt yn yr ardaloedd hyn a nodi beth gellir ei wneud i helpu hynny.

Adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur (SoNaRR)

Rhoddodd Russel De'Ath, Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gyflwyniad ar SoNaRR. Mae gan CNC ddyletswydd i gynhyrchu'r adroddiad hwn bob 5 mlynedd ac mae'n bwydo Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a Pholisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru. Mae'n sail dystiolaeth o ran i ba raddau y mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac yn seiliedig ar bedwar nod allweddol:

- Bod stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella (ymestyn a chyflwr)
- Ecosystemau gwydn
- Lleoedd iach i bobl (llygredd/ansawdd aer, rheoli gwastraff, llygredd sŵn, llygredd dŵr, defnydd tir a phriddoedd, rhywogaethau estron goresgynnol, perygl llifogydd)
- Economi adfywiol (cynhyrchiant a defnydd cynaliadwy a'n hól troed tramor)

Mae dystiolaeth i ddangos ein bod yn tynnu llawer mwy o'r ddaear nag yr ydym yn ei roi'n ôl, a'r casgliad gan SoNaRR yw bod angen gwneud newidiadau ar raddfa fawr i'r systemau bwyd, ynni a thrafnidiaeth er mwyn mynd i'r afael â'r heriau. Mae gan Borth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru wybodaeth i gefnogi'r gwaith o lunio'r asesiad llesiant, ac mae'r Datganiadau Ardal hefyd yn nodi heriau ar lefel leol. Mae angen ystyried materion morol ac arfordirol, yn enwedig yn achos cymunedau sydd dan fygythiad o achos y codiad yn lefelau'r môr. Cafodd cynnig ei wneud am gymorth i hwyluso gweithdy *Three Horizons* sy'n offeryn sganio yn y dyfodol.

Mae'r Grŵp Gweithredu Amgylchedd Iach (GGAI) yn datblygu'r gwaith hwn. Mae'r amgylchedd naturiol o dan bwysau aruthrol ac mae angen dod o hyd i ateb i fynd i'r afael â hyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn deall y neges, ond mae angen ei hamlygu ymhlith y sector preifat. Gall polisïau ar ôl Brexit ddylanwadu ar ddefnydd tir yn y dyfodol. Mae'r enghreifftiau a roddwyd yn dangos y dylai hyn fod yn rhan allweddol o raglen waith y BGC yn y dyfodol.

GWEITHREDU	
Y Grŵp Gweithredu Amgylchedd Iach i ystyried beth y gellir ei wneud i helpu i leihau lefelau ffosffad	GGAI
Yr amgylchedd a bioamrywiaeth yn rhan allweddol o raglen waith y dyfodol	GGAI
Dosbarthu'r dogfennau mewn perthynas â'r Cynllun Adfer Natur a Bywyd Gwylt yn eich Ward i'r aelodau pan fyddant ar gael	Tîm Cynorthwyo BGC
Dosbarthu nodyn briffio ar SoNaRR	Tîm Cynorthwyo BGC

4. Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: Cymunedau Oed Gyfeillgar

Dywedodd Heléna Herklots, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, fod angen sicrhau, wrth i ni symud drwy'r pandemig, nad anghofir am ein poblogaeth sy'n heneiddio. Cafwyd cyflwyniad ar gymunedau oed gyfeillgar, lle mae pobl hŷn yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u cynnwys, a lle mae cymunedau'n helpu pobl i heneiddio'n dda.

Amlinellai strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru, yr oedd modd ymgynghori yn ei chylch cyn mis Mawrth, ei gweledigaeth i gefnogi pobl o bob oed i fyw a heneiddio'n dda. Mae'r adroddiad 'Gadael neb ar ôl', a lansiwyd fis Awst diwethaf, yn amlinellu meysydd allweddol gyda chamau gweithredu tymor canolig a hir. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi nodi parthau oed gyfeillgar sy'n cwmpasu pob agwedd ar fywyd cymunedol y mae angen eu hystyried wrth

lunio cynlluniau. Dau brosiect sy'n bodoli ar hyn o bryd yn Sir Gaerfyrddin yw Connect a Bwcabus.

Mae gofyniad ar Awdurdodau Lleol i anelu at weld Cymru sy'n oed gyfeillgar. Ceir Grŵp Llywio Cenedlaethol sy'n oed gyfeillgar, a Chymuned Ymarfer sy'n galluogi ymarferwyr i gysylltu â'i gilydd. Yn lleol, y fantais fyddai bod trigolion hŷn yn rhan o'r broses o siapio'r man lle maent yn byw. Amlinellwyd gofynion ymgeisio Rhwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd a chynigiwyd cymorth gyda'r broses ymgeisio gan yr OPCW. Eglurwyd y byddai angen i'r awdurdod lleol wneud y cais ond bod gweithio mewn partneriaeth yn hollbwysig.

Cadarnhaodd Emlyn Dole ei fod yn cefnogi'r gwaith ac yn cefnogi gweithio gydag eraill, ond bod angen trafod y peth cyn bwrw ymlaen. Ychwanegodd Martyn Palfreman ei fod yn falch bod Connect yn cael ei ddangos fel arfer da a soniodd am raglenni eraill oedd yn cefnogi pobl hŷn. Dywedodd fod cyfleoedd i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol weithio ochr yn ochr â'r Cyngor.

GWEITHREDU	
Gwahodd Heléna Herklots i gyfarfod o'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn y dyfodol	Martyn Palfreman
Cytuno mewn egwyddor i fwrw ymlaen â'r drafodaeth ar Gymunedau Oed Gyfeillgar gyda'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ar ddull rhanbarthol	Tîm Cynorthwyo BGC a Martyn Palfreman

2. Cofnodion a Materion yn Codi

23 Mawrth 2021

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

Cofnod o'r Camau Gweithredu

Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu blaenorol.

5. Cynllun Llesiant Cyngor Sir Gaerfyrddin - y Wybodaeth Ddiweddaraf

Cronfa Her yr Economi Sylfaenol - Prosiect Caffael Bwyd y Sector Cyhoeddus

Daeth y prosiect i ben ddiwedd mis Mawrth 2021. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru a ffrydiau ariannu eraill ynghylch Cam 2 a fydd yn canolbwyntio ar ddatblygu cyflenwad bwyd lleol.

O ran caffael, mae adroddiadau ac argymhellion wedi'u hanfon at y sefydliadau angori, bydd y swyddogion caffael yn cyfarfod, a bydd gwahoddiad yn cael ei estyn i bartneriaid nad oeddent yn rhan o hyn o'r blaen.

Y wybodaeth ddiweddaraf am gyllid Cyfoeth Naturiol Cymru

Darparwyd adroddiad cynnydd ar gyfer y ddau brosiect a gyflawnwyd yn llwyddiannus – plannu coed a seilwaith gwyrdd.

Diolchodd Huwel Manley i Kate Harrop a Wendy Phillips am eu gwaith ar y grant hwn, a oedd wedi bod yn her o ran y broses. Ychwanegodd fod ansicrwydd ynglŷn â'r cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd.

Diweddariad Cronfa Adfer Gwirfoddoli yn sgil y Coronafeirws

Mae'r wefan a'r llwyfan dysgu yn fyw a byddant yn cael eu lansio'n swyddogol yn ystod Wythnos Gwirfoddoli 1-7 Mehefin. Yn y cyfamser gall cyrsiau gael eu cyrchu gan bartneriaid.

Cynllun Gwaith

Roedd diweddariadau ar y cynllun gwaith mewn print trwm.

Cytunwyd i ystyried defnyddio cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer yr atebion cymdeithasol a gwyrdd ar gyfer iechyd, felly byddai penderfyniad cynnar ar gyllid yn y dyfodol yn fuddiol.

Cynhelir cyfres arall o weithdai ddiwedd mis Mai yn canolbwyntio ar y pedwar maes allweddol o gaffael blaengar fel y nodwyd yn y cynllun gwaith.

Adroddiad Blynyddol

Mae'n ofynnol i'r BGC gyflwyno ei adroddiad blynyddol erbyn diwedd mis Gorffennaf. Dylai'r adroddiad adlewyrchu'r hyn a gyflawnwyd dros y 12 mis diwethaf yn erbyn y Cynllun Llesiant. Bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau yn ei gyfarfod ar 10 Mehefin, a bydd copi drafft yn cael ei ddsbarthu i'r aelodau ganol mis Mai er mwyn cael eu sylwadau arno.

GWEITHREDU	
Dosbarthu'r ddolen i'r wefan Gwirfoddoli newydd a'r llwyfan dysgu	Tîm Cynorthwyo BGC
Dosbarthu Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer sylwadau'r aelodau cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau ym mis Mehefin	Tîm Cynorthwyo BGC

6. Hybiau Gwasanaeth Cyhoeddus Canol Tref

Mae'r grŵp wedi cyfarfod ddwywaith ers y cyfarfod diwethaf, ac mae'r Brifysgol hefyd wedi ymuno yn y trafodaethau. Estynnwyd gwahoddiad i unrhyw sefydliadau eraill oedd yn dymuno ymuno.

Mae asedau wedi'u mapio yn Llanelli, Rhydaman, Caerfyrddin, a'r 10 tref lle nodwyd clwstwr o drefi â llawer o asedau. Mae prosiect peilot yn cael ei ystyried ar gyfer Llanymddyfri a Llandeilo gan y gall yr asedau hyn gael eu defnyddio'n fwy effeithiol. Y darn nesaf o waith yw mapio'r angen yn yr ardaloedd hynny gan ei bod yn amlwg y bydd gan bob sefydliad ofynion gwahanol.

Cafwyd trafodaeth ar leoliadau lle gellid cynnal cyfarfodydd awyr agored.

GWEITHREDU	
Yr Aelodau i ddarparu rhestr o'r manau gweithio/cyfarfod awyr agored oedd ar gael yn y sir	Pawb

7. Y Diweddaraf am Asesu Llesiant

Cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf i weithio mewn partneriaeth â Cheredigion, Sir Benfro a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Bydd yr arian rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer swydd cydgysylltydd prosiect. Bu i'r Aelodau gymeradwyo'r fframwaith methodoleg ar y cyd ar gyfer asesu llesiant lleol, a hefyd cymeradwyo cyflwyno cais i

Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru am eu cefnogaeth mewn gweithgarwch ymgysylltu yn ystod y cylch hwn o asesiadau a thros y pum mlynedd nesaf.

GWEITHREDU	
Enwebu arweinydd data ac arweinydd ymgysylltu ar gyfer yr Aseiad Llesiant	Pawb

8. Unrhyw Fater Arall

Cytunwyd bod symud i Zoom wedi hwyluso'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.